



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol – Adolygiad yn ystod y flwyddyn

Cymdeithas Dai Cymoedd i'r Arfordir - L137

Hydref 2019

Dyfarniad Rheoleiddiol - Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio - Hydref 2019

Llywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau - Wedi Cynyddu

- Risg neu gyfuniad o risgiau yn profi i fod yn her sylweddol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac mae angen cynyddu goruchwyliaeth reoleiddiol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.

Mae Cymoedd i'r Arfordir wedi rhoi ymgymeriad gwirfoddol i Weinidogion Cymru, fel y mae adran 6A o Ddeddf Tai 1996 yn darparu ar ei gyfer, mewn ymateb i dystiolaeth o wendidau llywodraethiant sylweddol mewn perthynas â:

- Gweithdrefnau, polisiau a rheoli caffael
- Gweithdrefnau, polisiau a rheoli adnoddau dynol
- Cadw a threfnu data

Er mwyn cydymffurfio â'r ymgymeriad gwirfoddol, bydd y Gymdeithas yn cwblhau cynllun gwella manwl a luniwyd yn dilyn ymchwiliadau annibynnol diweddar ac y cytunwyd arnynt gyda'r Rheoleiddiwr. Bydd hyn yn cynnwys ailedrych ar faterion llywodraethiant a chydymffurfio, yn ogystal â gweithio i sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau a'r profiad i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Bydd gofyn i Cymoedd i'r Arfordir weithredu unrhyw argymhellion a/neu gamau gwella a bennir yn sgil y gwaith adolygu yn unol ag amserlen y cytunir arni gyda'r Rheoleiddiwr.

Mae angen mwy o oruchwyllo rheoleiddiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau perfformiad canlynol:

SP 1.0 Rheoli effeithiol ar lefel weithredol ac ar lefel bwrdd gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

- Mae'r trefniadau llywodraethu yn sefydlu ac yn cynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer y Bwrdd, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ac yn sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol yn eu lle.
- Maent yn cydymffurfio â'r dogfennau llywodraethu, gan gynnwys mabwysiadu cod llywodraethu priodol a chydymffurfio ag ef.
- Maent yn dilyn pob elfen berthnasol o'r gyfraith.

SP 3.0 Aseiad cynhwysfawr o effeithiau busnes risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn

- Mae'n diogelu buddiannau trethdalwyr ac enw da'r sector, ac yn gwarchod asedau tai cymdeithasol.

